tafod elái

HYDREF 2016

Rhif 311

Pris 80c

Croesawu Meddyg BanglaCymru

Yn ystod mis Medi daeth Dr Jishumoy Dev draw o Bangladesh i sôn am ei waith yno gyda BanglaCymru. Sefydlwyd yr elusen yn 2008 gan Wil Morus Jones i roi llawdriniaeth i gleifion sy'n dioddef o gyflwr gwefus a thaflod hollt yn ogystal â'r rhai sydd wedi dioddef llosgiadau difrifol. Cyflawnir y gwaith mewn canolfan newydd pwrpasol ac yn Ysbyty Centrepoint yn Chittagong. Hefyd bu'r tîm meddygol ar deithiau yn cynnal sesiynau mewn lleoedd megis Varanasi, Cox's Bazar a Tangail.

Bangladesh, yn ôl ystadegau'r Cenhedloedd Unedig yw gwlad dlotaf Asia, ac mae mwy o blant yn cael eu geni gyda thaflod a gwefus hollt yma nag unrhyw ran arall o'r byd. Amcangyfrir bod tua pum mil o blant yn cael eu geni gyda'r cyflwr hwn yn flynyddol ym Mangladesh ond dim ond eu hanner sy'n cael eu trin oherwydd diffyg cyllid a darpariaethau meddygol. Mae'r driniaeth yn newid eu bywydau'n ddramatig, nid yn unig o ran pryd a gwedd ond hefyd yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Cyflawnwyd dros 1200 o lawdriniaethau dros yr wyth mlynedd diwethaf. Ceir rhagor o fanylion ar www.banglacymru.org.uk

Gwrthwynebu Ail-agor Chwarel

Daeth cannoedd o drigolion Creigiau a Phentyrch i wrthdystiad yn erbyn ail-agor chwarel Creigiau. Mae Cwmni Tarmac yn bwriadu cloddio am gerrig ar gyfer adeiladu yn y chwarel sydd wedi bod ar gau am rai blynyddoedd. Ond mae trigolion yn pryderu am effaith y gwaith ar yr amgylchedd leol a'r drafnidiaeth trwm fydd yn defnyddio ffordd sydd ddim ond yn addas ar gyfer un cerbyd ar y tro. Bydd Cyngor Caerdydd yn penderfynu ar y cais cynllunio yn fuan.

8 mis i fynd!

Dewch draw i Ben-y-bont ddydd Sadwrn yr 8fed o Hydref. Bydd y lle dan ei sang ar gyfer yr Ŵyl cyhoeddi gyda gorymdaith drwy'r dref a dathliad i ddilyn yng nghaeau Pontnewydd. Gydag adloniant di-ri, stondinau, chwaraeon a lluniaeth, fe fydd rhywbeth at ddant pawb! Edrychwn ymlaen yn fawr i'ch gweld.

Prynwch eich copi o
Tafod Elái
£8 am y flwyddyn
Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu
029 20890040

Ysgol Pont Sion Norton

Danywenallt
Aeth blwyddyn 6 i Ganolfan Ieuenctid Danywenallt am ddwy noson ym mis Medi. Bu'r dosbarth yn gwneud nifer o weithgareddau diddorol gan gynnwys taith gerdded a dal mamaliaid bach. Diolch i Mrs Cotter, Mrs Foster a Mr Evans am edrych ar eu holau!

Pwll Mawr
Fel rhan o'u thema 'Plant y Chwyldro', aeth blynyddoedd 3 a 4 i ymweld â Phwll Mawr. Roedd yn brofiad gwych ac yn gymorth enfawr gyda'u gwaith wrth geisio dychmygu bywyd a gwaith yn y cyfnod.

Ysgol Creigiau (tudalen 5)

Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn dathlu diwrnod penblwydd Roald Dahl drwy wisgo fel cymeriadau o'i lyfrau.

Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn mwynhau'r profiad o gael gweld un o'r 'Tocynnau Aur' gwreiddiol o'r ffilm 'Charlie a'r Ffatri Siocled'.

Martin yn Ennill Eto



Dorian Jones yn arwain seremoni Coroni'r Bardd
yn Ysgol Bro Pedr, Llambed

Llongyfarchiadau i Martin Huws o Ffynnon Taf ar ei fuddugoliaeth ddwbwl, ennill y Gadair yng Ngŵyl Fawr Aberteifi a'r Goron yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Llambed.

Y gofynion yn Llambed oedd cerdd neu ddilyniant o gerddi yn y mesur rhydd ar y thema Ffenest neu Ffenestri.

Ganrif yn ôl cafodd y Parchedig Brifardd W J Gruffydd (Elerydd) o Ffair Rhos ei eni ac enillodd ei bryddest Ffenestri y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1955.

Dywedodd y Prifardd Emyr Lewis fod 12 wedi cystadlu eleni a bod tri ar dir uwch.

'Mae 'na duedd i'r wers rydd ddenu gwaith sy'n haniaethol, llac ac undonog,' meddai.

Dywedodd fod gan Gweld yn Glir? y ddawn i fod yn ddiriaethol, fod ôl meddwl gofalus ar ei gerddi 'teimladwy a chofiadwy' oedd yn cynnwys cyffyrddiadau cynnil ac odli mewnol crefftus.

'Mae'r delweddu, sydd weithiau'n swrealaidd, yn cyffroi,' meddai.

Dywedodd Martin, yn wreiddiol o Gaerdydd: 'Mae'r cerddi ar ffurf deialog rhwng tad a mab ar deithiau i Maiorca, Llunden a'r Unol Dalethiau a'r ddau'n closio at ei gilydd.

'Ar y dechre, ma'r mab yn cysuro'r tad am ei fod yn ofan hedfan. Ar y diwedd, ma'r mab yn cysuro'r tad am ei fod yn diodde o ganser.

'Mae ennill gwobrau'n hwb,' meddai, 'ond ymarfer y grefft sy'n cyfri.' Dywedodd taw un amcan fyddai cyhoeddi ei gyfrol gynta.

Yn 1988 cafodd Golwg ei sefydlu a Martin oedd un o'r gohebwyr cynta cyn mynd yn isolygydd ar bapur newydd y Western Mail.

Wedyn fe aeth yn ymchwilydd i'r Byd ar Bedwar a Week In Week Out cyn bod yn aelod o'r tîm lansiodd wefannau ar-lein BBC Cymru, Cymru'r Byd a Cymru Fyw.

Yn 2014 fe ddaeth yn ail yn y Goron yn Eisteddfod Llambed ac yn drydydd yn yr un gystadleuaeth yn 2015.

Disgyblion Bl.5 a 6 yn mwynhau bod yn ran o 'Ŵyl Hanes Cymru i Blant' yng nghwmni Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru.

Ysgol Gwaelod y Garth

W.I. Gwaelod y Garth
Diolch yn fawr iawn i aelodau o W.I. Gwaelod y Garth sydd wedi bod yn ymweld â Blwyddyn 5 yn wythnosol i ddysgu sgiliau gwinio, gwau a choginio. Yn ystod y flwyddyn llwyddodd bod plentyn i addurno ffedog unigol, coginio cacennau a bisgedi blasus a chreu chlustog yr un gan ddefnyddio sgiliau brodio a gwinio gyda pheiriant. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi eleni eto.

Prosiect Pwll y Llan, Gwaelod y Garth
Mae plant Blwyddyn 6 wedi bod yn rhan o brosiect hanes lleol i astudio hanes pwll y Llan yng Ngwaelod y Garth. Trwy gyd-weithio gyda gwirfoddolwyr, haneswyr a chynghorydd lleol maent wedi bod yn dditectifs hanes, gan archwilio i'r drychineb a ddigwyddodd yn y pwll yn 1875, a laddodd 16 o ddynion a bechgyn. Ar ôl ymweld â'r Lan ar sawl achlysur a chlywed oddi wrth bobl leol, ysgrifennodd bob plentyn darn o farddoniaeth. Creuwyd llyfr o'r gwaith yma, a chyflwynwyd llyfr i bob plentyn i gofio am eu rhan yn y prosiect.

Creu pwll natur
Dros y gwyliau haf fe ddaeth cwmni Cemex lleol i greu pwll natur i ni yn yr ysgol gan ddilyn cynllun buddugol Megan Jones, Blwyddyn 6. Mae'r Clwb Eco yn bwriadu prynu planhigion i'r pwll er mwyn denu creaduriaid o bob math atom.

Cyngor Ysgol
Llongyfarchiadau i aelodau newydd o'r Cyngor Ysgol. Maent yn edrych ymlaen at drefnu nifer o weithgareddau ar draws y flwyddyn.

Blwyddyn 4 a 5 yn ymweld â Chastell Coch
Aeth Blwyddyn 4 a 5 i wylio perfformiad arbennig gan Anni Llŷn yng Nghastell Coch yn esbonio hanes clera. Cafodd nifer o blant (ac athro dewr!) eu cyfweld gan y rhaglen deledu Heno. Da iawn bawb!

CHROMA

- y Fenter laith yn boli enillwyr Brwydr y Bandiau 2016

Enwau:
Katie Hall o Aberdar, Liam Bevan o Abercynon, (Ysgol Rhydywaun) Zac Mather o Pentre'r Eglwys (Ysgol Garth Olwg)
Siwt ddechreuoch chi?
Roedd Zac a Bev wedi bod yn chwarae mewn brosiectau eraill cyn creu CHROMA. Ar ôl tua 4 mis o edrych am ganwr, fe wnaeth Katie anfon neges i Bev yn gofyn a oedd e am ysgrifennu caneuon acwstig. Ar ôl i Bev esbonio sefyllfa Zac a fo ar y pryd, wnaeth hi ddod i ymarfer gyda nhw, a wnaeth popeth ddod at ei gilydd!
Chi'n falch bo' chi wedi dechre?:
100%, Mae chwarae gyda'r band yn gymaint o hwyl a dyn ni wedi cwrdd â nifer o bobl gwych yn y broses!
Llwyddiannau:
Ennill BYB2016 y yr Eisteddfod eleni a chwarae Maes B fel gwobr ar y Nos Sadwrn. Uchafbwynt o'n hamser fel band hyd yma.
Beth nesa' i CHROMA?
Ar hyn o bryd, rydym wrthi yn recordio cerddoriaeth newydd a bwcio llawer o gigs ym mhobman, felly mwy o gerddoriaeth a mwy o gigs!

Glenys Roberts enillydd y gystadleuaeth Her Gyfieithu 2016. Y wobr oedd siec am £250 a ffon farddol a gyflwynwyd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Y gamp eleni oedd cyfieithu cerdd gan fardd o Fecsico, Pedro Serrano, naill ai i'r Saesneg neu'r Gymraeg.

Creigiau (Tudlen 7)

Hanna Davies, Tregarth, Creigiau pasiodd gradd 8 ar y ffliwt

Priodas Richard a Gwenno, Pontypridd (tudalen 11)

Colofn Blasus ac Iachus
(Tudalen 8)

Croeso cynnes iawn i Idris Tomos Roberts, mab bychan Dr Mari Roberts (Tudalen 6).

Pentyrch (Tudalen 7)

Catrin Heledd yn holi Ian Gwyn Hughes ac Osian Roberts yng Nghlwb y Dwrlyn

Pryd fydd Y Gwyll nôl ar y sgrin? (tudalen 8)

Arwydd Newydd Clwb Rygbi Pentyrch

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Ethyn Henry, Nant y felin, a'r merched Louise a Siân a'u teuluoedd ar golli tad Ethyn ddiwedd mis Gorffennaf. Ffermwr yn ardal Llandybie oedd Mr Winston Richards ac roedd wedi dathlu ei ben-blwydd yn gant oed flwyddyn neu ddwy yn ôl.

Llwyddiant Eisteddfodol
Er bod Eisteddfod y Fenni'n atgof pell erbyn hyn rhaid llongyfarch nifer o drigolion Efail Isaf ar eu llwyddiant. Cafodd Parti'r Efail y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Parti Cerdd Dant a'r ail wobr yng nghystadleuaeth y Parti Alaw Werin . Llongyfarchiadau i Osian Gruffudd, Parc Nant Celyn ar dderbyn y wobr gyntaf am y ddawns stepio unigol i fechgyn dros 16 oed ac am gipio gwobr gyntaf arall am y Ddeuawd Stepio gyda Daniel Calan. Roedd amryw o drigolion y pentre yn dawnsio gyda Dawnswyr Nantgarw a rannodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Tlws Coffa Lois Blake. Llongyfarchiadau hefyd i aelodau Bro Taf a fu'n amlwg iawn ar lwyfan y Brifwyl.

Llwyddiant yn yr Arholiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Tomos West ac Osian Gruffudd, Parc Nant Celyn ar eu llwyddiant rhyfeddol yn yr arholiadau TGAU.

Llongyfarchiadau fil i Eleri Roberts, Parc Nant Celyn, ar ei llwyddiant ysgubol hithau yn yr Arholiad Lefel A. Clywodd Eleri rhyw ddiwrnod cyn gadael am y Coleg ei bod wedi ennill Ysgoloriaeth Academaidd Prifysgol Caerdydd. Estynnwn ein dymuniadau gorau i bob un o'r myfyrwyr sy'n ail-gydio yn eu hastudiaethau.

Pen-blwydd Hapus
Dymunwn ben-blwydd hapus i un o ddarllenwyr hynaf Tafod Elái yn y pentref. Mae Eirlys Davies, Heol y Ffynnon wedi dathlu ei phen-blwydd yn 98 oed yn ddiweddar. Ymlaen am y cant yn awr!

Pêl-droedwraig o fri
Llongyfarchiadau gwresog i Mali Ackerman, Heol y Ffynnon, ar gael ei dewis i ymuno â charfan datblygu pêl-droed merched De-ddwyrain Cymru. Dymunwn yn dda iddi yn ystod y tymor ac yn y dyfodol.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Pat Edmunds, Penywaun a dderbyniodd driniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Yn dilyn strôc drychinebus ddiwedd mis Ionawr, mae Michael Lloyd Williams, Heol Iscoed wedi bod ar daith feddygol hir, ond yn anffodus yn anffrwythlon. Ar ôl cyfnod yn Uned Strôc Ysbyty merthyr fe'i symudwyd i Lwynypia ac erbyn hyn mae yng Nghartref Tŷ Hafod ar Ffordd Llantrisant. Er i Michael golli ei allu i gyfathrebu mae'n derbyn cysur wrth nifer dda o ymwelwyr cyson.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau gwresog i Ria ac Adrian Morgan ar enedigaeth Mila fach ar y 29ain o Awst. Wyres gyntaf i Margaret a John Pritchard Copley. Mae Nain a Taid wedi gwirioni'n lân.

Ffair Haf Neuadd y Pentref
Ar y 10fed o Fedi, ar ôl glaw trwm dros nos, daeth yr haul allan i groesawu llu o bobl i fwynhau'r ffair. Llongyfarchiadau i'r tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr a'r pwyllgor am drefnu prynhawn arbennig yn llawn stondinau a gweithgareddau. Da hefyd oedd clywed cymaint o'r teuluoedd ifanc yn siarad Cymraeg wrth fwynhau. Bydd pob ceiniog o'r elw yn mynd at y gwaith o wella cyflwr y Neuadd.

Ambiwlans Awyr yn glanio yn y pentre.
Ar yr un prynhawn a'r Ffair Bentref crëwyd tipyn o gynnwrf yn yr Efail Isaf wrth i Ambiwlans Awyr Cymru lanio yn y cae tu ôl i'r tai yn Heol y Ffynnon. Roedd plentyn wedi ei losgi'n ddrwg wrth i dân mewn gardd fynd allan o reolaeth. Cludwyd y plentyn yn yr ambiwlans i Ysbyty Treforus a deellir ei fod yn gwella'n raddol.

Y TABERNACL
Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Rowland Wynne ac Emlyn Davies sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Awst a Medi. Da deall fod y ddau ohonoch yn gwella.

Dathlu dwbl ym Maes yr Haul
Bu dathlu mawr ym Maes yr Haul, cartref dau o'n haelodau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni. Derbyniodd Guto Roberts Fedal Wyddoniaeth yr Eisteddfod a Glenys hithau'n ennill y Gystadleuaeth Her Gyfieithu 2016 gan dderbyn ffon farddol brydferth. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

Merched y Tabernacl
Bydd aelodau Merched y Tabernacl yn ymweld â Phlasty Caerdydd yn Heol Richmond ddydd Mercher, Medi 28ain i gael taith dywys o amgylch y tŷ a chael te prynhawn yno.

Bydd y grŵp yn cyfarfod yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ddydd Iau, Hydref 20fed gan gwrdd am goffi yno am 10:30yb.

Helpu Ffoaduriaid
Mae aelodau'r Tabernacl a ffrindiau o'r pentref wedi bod yn brysur yn ystod mis Medi yn casglu dillad ac esgidiau i'w hanfon i'r ffoaduriaid yn Ewrop. Mae'r ymateb wedi bod yn wych unwaith eto ac mae tua 100 o fagiau wedi eu casglu yn llofft y capel. Diolch o galon i Ann Dwynwen Davies a Carys Davies am drefnu'r ymgyrch.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Hydref
Hydref 2il Oedfa Gymun o dan ofal Gwilym ac Eleri Huws ac aelodau Meisgyn
Hydref 9fed Y Parchedig Eirian Rees
Hydref 16eg Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal plant yr Ysgol Sul a Theulu Twm
Hydref 23ain Keith Rowlands
Hydref 30ain Y Parchedig Eirian Rees

Ysgol Creigiau

(Lluniau tudalen 2)

Croeso cynnes iawn i Ysgol Gynradd Creigiau i Miss Angharad Williams, athrawes newydd Dosbarth 1 ac i Mrs Jo Davies, ein swyddog gweinyddol.

DIWRNOD ROALD DAHL
Cawsom ddiwrnod gwych ar Fedi'r 13eg, yn dathlu Pen-blwydd Roald Dahl yn 100 mlwydd oed. Cafodd y disgyblion gyfle i wisgo fel unrhyw gymeriad o lyfrau Roald Dahl ac, fel ag y gallwch ddychmygu, roedd yr ysgol yn llawn o gymeriadau lliwgar iawn! Roedd cyffro mawr yn y prynhawn wrth i bob dosbarth gael y cyfle i wylio clip byr o'r ffilm wreiddiol 'Charlie a'r Ffatri Siocled' ac i weld un o'r 'Tocynnau Aur' gwreiddiol. Diolch yn fawr i Mr Huw Williams am roi profiad bythgofiadwy i'r disgyblion a'r staff!
Yna, ar y diwrnod olynol, roedd un sypreis arall i ddod! Cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau cinio blasus yn seiliedig ar thema Roald Dahl - diolch Mrs Brown a'i chyd-weithwyr prysur yn y gegin.

DOSBARTH 5 A 6 YNG NGHASTELL COCH
Dydd Llun, Medi'r 12fed, ymwelodd Dosbarth 5 a 6 â Chastell Coch i gymryd rhan yng 'Ngŵyl Hanes Cymru i Blant'. Fel rhan o'r Ŵyl mae Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, yn teithio o un castell i'r llall trwy Gymru gyfan, yn cynnal gweithdai barddoniaeth, ac yn addysgu'r plant am yr arfer o glera - sef traddodiad y beirdd, cyn dyddiau'r post, ffôn, Facebook a Twitter, i ddosbarthu negeseuon o un Arglwydd y castell i'r llall. Cafodd y digyblion ddiwrnod i'r brenin yn dysgu am draddodiadau'r Cymry.

RYGBI
Llongyfarchiadau i Siôn Davies a Huw Evans ar gael eu dewis i Garfan Rygbi Ysgolion Caerdydd. Pob lwc i'r ddau!

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Enid a Geraint Hughes

Profiad y Bathdy Brenhinol
Ddechrau Mis Mai agorodd un o sefydliadau enwocaf ardal Llantrisant ei ddrysau i'r cyhoedd gyda lansio project *Profiad y Bathdy Brenhinol.* Bellach, mae'n bosib trefnu ymweliad â'r bathdy a chael eich tywys o gwmpas y ffatri i weld sut yn union mae'r arian yn ein pocedi yn cael ei greu. Cewch weld darnau newydd sbon danlli – tua 700 y funud yn cael eu bathu. Mae cyfle hefyd i chi fathu eich darn punt eich hun a'i gadw (am bris!).

Yn ogystal â'r ymweliad â'r ffatri mae cyfle i weld arddangosfa sy'n adrodd hanes y bathdy dros y canrifoedd a darganfod ffeithiau diddorol am y darnau yn eich poced a'r crefftwaith sy ynghlwm â'r gwaith o'u paratoi.

Ers yr agoriad yng nghanol mis Mai mae dros 30,000 wedi ymweld â'r bathdy. Mae Anthony Williams, Rheolwr Cyffredinol y fenter yn fodlon iawn â'r ymateb hyd yma. "Rydyn ni wrth ein bodd â'r ffordd y mae pobl wedi ymateb i'r 'Profiad' ac yn edrych ymlaen at dderbyn llawer mwy drwy ein drysau yn y dyfodol."

Os ydych am gael tywysydd Cymraeg – cysylltwch â'r bathdy i drefnu hynny. Rhif ffôn 0333 241 2223. Pris mynediad £13 i oedolion, £10 i blant. Gostyngiadau i bensiynwyr a grwpiau.

Trafnidiaeth.
Dros y ddau fis diwethaf mae tagfeydd trafnidiaeth rhwng Tonysguboriau a'r Beddau wedi achosi cryn anniddigrwydd yn yr ardal .Y rheswm am hynny oedd cau'r ffordd rhwng Llantrisant a'r Beddau ar allt Brynteg. Mae'r gwaith o ledaenu'r ffordd ac o adeiladu pafin i gerddwyr bellach wedi ei gwblhau a bydd modd i ddisgyblion o Lantrisant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Bryn Celynnog gerdded yno'n ddiogel…
…ond fel mae un project yn dod i ben mae un arall, fydd yn achosi llawer mwy o gur pen i drigolion yr ardal, ar fin dechrau. Bydd cylchfan Matalan ar yr A4119 rhwng yr M4 a Thonysguboriau yn cael ei newid i system oleuadau a bydd pum lôn i bob cyffordd a'r rheini yn eu tro'n cael eu rheoli gan oleuadau traffig. Mae'r gwaith yn debygol o fynd yn ei flaen tan fis Gorffennaf y flwyddyn nesa! Amynedd piau hi!

Taith Gerdded Macmillan yn llwyddiant mawr.
Daeth dros 200, yn oedolion a phlant (a chŵn) i Ganolfan Chwaraeon Llantrisant fore Sul 4ydd o Fedi i ymuno â Derek, y 'dyn tywydd', i gerdded 8 milltir dros elusen Macmillan. Torrwyd y rhuban i gychwyn y daith gan Derek cyn iddo arwain y cerddwyr ar eu siwrne. Cafwyd tywydd gwych i gerdded ar hyd y llwybr cyhoeddus i Efail Isaf ac yn ôl.

Wedi'r her o ddringo'r bryn olaf tuag at y ganolfan croesawyd y cerddwyr gyda lluniaeth ysgafn, ac roedd cestyll bownsio ar gael i'r rhai oedd ag ynni ar ôl i'w losgi. Cafodd pob cerddwr grys T ar gyfer y daith a gwych oedd gweld môr o wyrdd yn symud ar hyd y llwybr. Ar ddiwedd y daith roedd medal arbennig i bob un oedd yn llwyddiannus.

Grŵp codi arian Macmillan Pont-y-clun a'r ardal oedd yn gyfrifol am drefnu'r daith gerdded ac roedd y misoedd o baratoi wedi sicrhau diwrnod llwyddiannus.

I agor yn fuan
I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn dilyn datblygiadau'r Miskin Arms ar Gweplyfr, neu'n mynd heibio'r adeilad yn y car, fe welwch fod y gwaith adeiladu bron ar ben.

Mae Dudley Newbury'n gobeithio bydd y ffenest fawr yn barod i'w rhoi i mewn, ddechrau mis Hydref, dyma'r gwaith mawr olaf sy'n gorfod aros hyd y funud olaf gan fod y ffenest yn cael ei gwneud yn arbennig ar gyfer yr adeilad.

Mae'r adeilad wedi cael ei drawsnewid gyda'r estyniad yn creu ardal fwyta cynllun agored gyda lle i dros 90 o gwsmeriaid. Mae mynedfa newydd yn mynd yn syth o'r maes parcio i'r ystafell fwyta. Ar ddiwrnod braf fe fyddwch yn gallu mwynhau eich pryd, a'r olygfa wledig, ar y balconi sy'n rhedeg o amgylch yr estyniad. Mae hefyd yn bosib gweld eich bwyd yn cael ei baratoi yn y gegin agored lle bydd tri neu bedwar cogydd yn gweithio.

Gyda bwydlen sy'n cynnig pysgod ffres a chigoedd amrywiol fe fydd gwasanaeth *table d'hôte* (pryd 2 gwrs) ac *à la carte* ar gael pob dydd, gyda chinio traddodiadol ar y Sul. Amcan Dudley yw cynnig bwyd o safon uchel, tebyg o ran arddull i'r Custom House yn y Bae.

Rydyn ni'n dymuno'n dda iddo ac yn edrych ymlaen at gael y dafarn yn agored unwaith eto ar ei newydd wedd a chael rhywle lleol sy'n cynnig bwyd o safon uchel.

Merched Y Wawr Tonysguboriau
Croesawyd Shirley Williams, swyddog hyrwyddo rhanbarth y De-ddwyrain o MYW i'n cyfarfod ym mis Medi. Gan fod Shirley wedi treulio llawer o amser yn ystod ei gyrfa yn dysgu Cymraeg i oedolion roedd yn briodol iddi fod gyda ni yn ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd. Cawson ni sawl stori ddigri wrth iddi son am ei phrofiadau fel aelod o'r mudiad.

Ar gyfer blwyddyn aur y mudiad yn 2017 mae deunydd yn cael ei gasglu sy'n olrhain hanes Merched Y Wawr ac fe ddaeth Shirley ag ôl-rifyn o gylchgrawn 'Y Wawr' oedd yn cynnwys erthygl gan Brenda Davies, un o'r rhai sefydlodd y gangen. Gwych fod Brenda yn eistedd yn y rhes flaen yn cyfarfod ac yn parhau i fod yn aelod ffyddlon o'r gangen.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017
Taith gerdded – Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gerdded am 8 milltir gyda ni ddydd Sul, 18 Medi, gan gynnwys fy nhad a drodd yn 90 oed dridiau'n hwyrach. Ond diolch yn bennaf i Wyn Thomas am wneud yr holl drefniadau ac am ofalu amdanom mor dda yn ystod y daith. Hyfryd iawn oedd cael ymweld ag Eglwys Llandyfodwg.

Digwyddiadau nesaf:
Nos Fercher, 26 Hydref am 7pm – Cyrri a chwis yn Nhŷ Bwyta Mouchak, Mill Street, Tonyrefail. £15 y pen. Enwau ymlaen llaw i fi os gwelwch yn dda (manylion cyswllt uchod) neu drwy facebook.
Nos Wener, 18 Tachwedd – Noson Bingo yn y Savoy.
Dydd Llun, 2 Ionawr – taith gerdded i'r teulu cyfan i roi cychwyn cadarn i'r flwyddyn newydd. Taith wastad ar hyd llwybr cerdded i dafarn y Longbow ac yn ôl.

Byddwn hefyd yn trefnu Te gyda Siôn Corn i blant Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ond does dim dyddiad eto.
Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

Hydref 19eg byddwn yn dathlu dydd 'Shwmae' gyda Bernadette Wilson, sy'n ddysgwraig. Mae hi'n mynd i siarad am, ac arddangos, therapi techneg Emmett.

Cyrraedd y Cant!
Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Marion Morris, mam Mrs Sian Davies, Portreeve Close Llantrisant, ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar y nawfed o Fedi. Dymuniadau gorau i chi ar yr achlysur arbennig hwn.

Croeso i Idris
Croeso cynnes iawn i Idris Tomos Roberts, mab bychan Dr Mari Roberts, yr Eglwys Newydd, gynt o Faes yr Haul, Cross Inn. Ganed Idris ar yr ail o Fedi yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd. Mae Nain a Taid, Glenys a Guto a'r teulu i gyd wrth eu bodd, yn enwedig ei gyfnither, Gwenno a'i dri chefnder, Ifan, Math Elis ac Owain Siôn.

Symud tŷ
Croeso cynnes i Dafydd, Lowri, Gwenno, Ifan a Math, sydd wedi symud o'r Groesfaen i fyw ym Maes yr Haul.

Colofnydd mis nesa: Siân Cadifor
Ebost: scadifor@btinternet.com
Ffôn:01443 238615

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Arholiadau
Llongyfarchiadau gwresog i blant y pentref sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau Safon A wrth iddynt ddechrau ar eu hastudiaethau yn y brifysgol. Mae Manon Griffith yn mynd i Abertawe, Alice Linley i Gaerfyrddin, a Gwilym Rees i Gaerwysg. Penderfynodd Nia a Sara Jones gymeryd blwyddyn o seibiant cyn gadael am y brifysgol. Dymunwn bob llwyddiant iddynt i gyd.

Graddio
Llongyfarchiadau i Megan Owen a Siriol Griffith wedi iddynt raddio o Brifysgol Lerpwl. Busnes a'r gyfraith oedd pwnc Megan a chyfrifyddiaeth oedd pwnc Siriol. Mae Megan yn mynd i astudio'r gyfraith am flwyddyn arall ond nid yw Siriol wedi penderfynu ar yrfa hyd yma ac yn joio dramor ar hyn o bryd. Mae Catrin Williams hefyd yn mwynhau yn teithio yn Asia wedi iddi hithau raddio mewn gwyddorau biofeddygol o Brifysgol Warwick . Pob hwyl hefyd i Garmon Roberts wedi iddo yntau raddio mewn daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth.

Dymuniadau Da
Dymunwn adferiad buan a llwyr i Emlyn Davies, Maes y Sarn, wedi iddo fod yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysia wella Emlyn.

Swydd Newydd
Dymunwn yn dda i Siwan Gruffudd wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel pennaeth adran Cemeg yn Ysgol Bro Edern yng Nghaerdydd. Dymunwn bob hapusrwydd iddi hefyd yn ei chartref newydd yn Llandaf.

Rygbi Cyffwrdd
Bu'n haf prysur i Manon Griffith. Yn ogystal â sefyll a llwyddo yn ei arholiadau Safon A, bu'n cynrychioli merched Cymru (o dan 18) yng nghystadleuaeth Rygbi Cyffwrdd Ewropaidd yn yr Iseldiroedd. Cymru oedd yn fuddugol yn y twrnament wedi iddynt ennill pob gêm. Llongyfarchiadau i'r tîm i gyd.

Hysbysfwrdd Newydd
Da yw gweld hysbysfwrdd dwyieithog newydd Clwb Rygbi Pentyrch yng nghanol y pentre'. (Llun tudalen 4)

Clwb y Dwrlyn
Cynhaliwyd noson agoriadol y tymor nos Iau 15 Medi ac roedd y Clwb Rygbi dan ei sang. Pa ryfedd oherwydd y gwestai oedd dau o wroniaid Ewro 2016 sef Osian Roberts ac Ian Gwyn Hughes ynghyd â'r gohebydd chwaraeon - un o blant y pentre - Catrin Heledd.

Gyda Catrin yn llywio'r noson yn ddeheuig â chyfres o gwestiynau i'r ddau, cafwyd cyfle i ail fwynhau llwyddiant ysgubol y tîm cenedlaethol gyda sawl stori ddifyr a sylwadau bachog i ddifyrru'r gynulleidfa. Yn ogystal trowyd golygon tuag at y dyfodol a gemau rhagbrofol Cwpan y Byd gyda Chymru yn awr ymysg y ffefrynnau i gyrraedd Rwsia.

Cafwyd noson hynod hwyliog â'r gynulleidfa wrth ei bodd gan gofio nad pêl droed yn unig a elwodd yn ystod yr haf ond hefyd proffil y Gymraeg a'r ymwybyddiaeth o Gymru ar gynfas rhyngwladol. Diolch yn fawr i Osian ac Ian am haf bendigedig ac iddyn nhw a Catrin am noson agoriadol llawn mwynhad. Noson i'w chofio.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
01443 407570
www.menteriaith.cymru

Gair gan Einir Siôn, y Brifweithredwraig –

Wedi haf hynod o brysur a llwyddiannus, mae'r Fenter yn brysur yn paratoi a threfnu llu o ddigwyddiadau ar gyfer y tymor yma. Ond cyn ymhelaethu am y rheiny hoffwn nodi rhai o uchafbwyntiau'r haf:

Parti Ponty wedi denu dros 6,000 o ymwelwyr er gwaetha'r glaw. Gwych oedd gweld pobl o bob oed yn mwynhau cerddoriaeth, adloniant, sgyrsiau a gweithgareddau di-ri trwy gyfrwng y Gymraeg

Cynlluniau Chwarae Gartholwg, Bodringallt ac Aberdâr wedi bod yn llwyddiant ysgubol unwaith eto, gyda nifer fawr o blant yn mynychu yn ystod tair wythnos gynta'r gwyliau

Band lleol, Chroma yn ennill Brwydr y bandiau yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016. Hoffai'r Fenter estyn llongyfarchiadau anferthol iddynt.

Newyddion Gwasanaethau Plant
Rydym yn falch i gyhoeddi bod Clwb ar ôl ysgol newydd sbon yn Ysgol Gynradd Pont Siôn Norton sy'n ychwanegu at ein clybiau eraill a'r ddarpariaeth yma yn mynd o nerth i nerth.

Dathliadau Diwrnod Shwmae Sumae 2016 - 15fed o Hydref
Gig Fforymau Ysgolion
15fed o Hydref yng Nghlwb y Bont, Pontypridd Gig - Chroma a Ysgol Sul
8:00 – 11:00yh £5 y tocyn

Cystadleuaeth Siop Shwmae 2016
Byddwn yn cynnal cystadleuaeth newydd sbon - Siop Shwmae. Yn rhoi'r cyfle i rai o archfarchnadoedd mwya'r sir gystadlu yn erbyn ei gilydd i ennill y teitl 'Siop Shwmae 2016' Tybed pwy fydd yn ymdrechu fwyaf i gefnogi'r diwrnod arbennig yma eleni? Pob lwc!

Y Fenter yn croesawu dau aelod newydd i'w tîm

Fy enw yw Gwyndaf Lewis, Swyddog Ieuenctid Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Dwi newydd raddio o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin yn astudio 'Perfformio' ac yn edrych ymlaen at ddechrau'r swydd yma. Wrth ennill dwy wobr nodedig yn y Brifysgol, mae wedi rhoi hyder i fi ac yn mynd law yn llaw gyda'r swydd yma sef Perfformio a chynnig gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Mae'n mynd i fod yn sialens gyffrous wrth i fi symud o Sir enedigol i Sir gwbl wahanol. Ond yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Fforymau yn yr Ysgolion, heb anghofio'r Eisteddfod sydd yn mynd i fod ar ein stepen drws.

Fy enw i yw Rebecca a dwi'n dod o Aberdâr. Dwi newydd raddio o Brifysgol Abertawe gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Yn rhinwedd fy rôl newydd fel Swyddog Ieuenctid Cymunedol, byddaf yn rhedeg grwpiau ffocws a fydd yn gyfle i bobl ifanc leisio eu barn am bethau sydd yn bwysig iddyn nhw. Dwi'n edrych ymlaen at ddechrau gweithio i Fenter Iaith RhCT ac yn awyddus i weithio gyda phobl ifanc yn fy milltir sgwâr er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan bobl ifanc ar ôl iddyn nhw adael byd addysg.

Cwm Cynon
Pwyllgor Clochdar - Yn dathlu canmlwyddiant y prifardd Rhydwen Williams.

Ddydd Gwener 14ed o Hydref bydd 'Chroma' enillydd brwydr y bandiau 2016 ar daith o gwmpas Ysgolion uwchradd y sir.

Mae'r Fenter yn chwilio am stondinwyr amrywiol ar gyfer ein digwyddiad Nadoligaidd. Am fwy o fanylion foniwch Catrin Reynolds ar 01443 407570
e-bost: catrinreynolds@menteriaith.cymru

Colofn Blasus ac Iachus

Gwnewch y gorau o gynnyrch yr hydref

Dwi'n hoff iawn o gyfnod yr hydref - mae'r lliwiau o'n cwmpas yn anhygoel ac mae hyd yn oed y llysiau a ffrwythau sydd ar gael yn ein denu ni yw bwyta o ran eu lliwiau - gwyrdd tywyll y chard, cale a'r sbigoglys, coch tywyll y betys, ffigys, mwyar duon a'r eirin ac oren y pwmpenni o bob math. Maent yn gweiddi allan 'bwytwch ni'; serch hynny, ac er bod rhan fwyaf ohonom yn gwybod dylem fwyta 5 y diwrnod, dangosodd arolwg diweddar mae dim ond 23% oedd yn dilyn yr argymhelliad (er bod 46% o'r rhai holwyd wedi tyfu ffrwythau a llysiau eu hunain) gyda 39% yn gwario arian ar dabledi fitaminau.

Mae gan lysiau a ffrwythau tymor yr hydref gyfraniad pwysig i'w wneud at ein deiet a'n paratoi ar gyfer y gaeaf. Mae ymchwil wedi dangos fod rhai o'r cemegolion ynddynt, sef 'phytochemicals', yn helpu i osgoi afiechydon e.e. antioxidants sy'n gwarchod ein celloedd a Lycopene (mewn tomatos) sy'n gysylltiedig â lleihau afiechyd y galon a rhai mathau o ganser. Mae'r fitaminau ynddynt yn helpu i roi hwb i'n system imiwnedd. Mae Fitamin A mewn ysgewyll Brwsel, cnau menyn, moron, cêl, cennin, pwmpen, spigoglys, tatws melys, chard a thomatos yn helpu atgynhyrchu celloedd, yn helpu'r system imiwnedd ac yn hyrwyddo twf esgyrn, datblygiad dannedd, ac yn helpu i gynnal croen iach, gwallt, a pilennau mwcaidd. Does dim Fitamin C yn unrhyw fwyd heblaw ffrwythau a llysiau ac mae'n angenrheidiol i ni gael y fitamin yma'n ddyddiol i'n cadw'n iach, amddiffyn y celloedd ac i wella clwyfau. Mae'r ffolad ynddynt yn bwysig ar gyfer y system nerfol ac yn helpu'r corff wneud celloedd coch iach.

Yn sicr gallant hefyd ychwanegu lliw, ansawdd ac amrywiaeth i'r diet ac maent yn rhad yn enwedig os ydym yn eu prynu mewn marchnadoedd ffermwyr neu debyg. Prynais i afalau, eirin ac eirin duon mewn stondin ar ochr y ffordd ar fy nhaith yn ddiweddar trwy Swydd Gaerloyw, gyda'r elw o'u gwerthu'n mynd at adfer y neuadd bentref lleol! Erbyn hyn mae'r cynnyrch wedi eu troi yn siytni a jam.

Dyma rai syniadau ar gyfer defnyddio llysiau a ffrwythau'r tymor mewn ffyrdd dychmygus a diddorol. (Y peth mwyaf pwysig yw osgoi eu berwi mewn dŵr!)

Mae pwmpenni a sgwash yn dda wedi eu rhostio, mewn cyri, cawl, risotto, chilli neu grymbl safori. Peidiwch brynu'r pwmpenni sy'n cael eu gwerthu ar gyfer gwneud lanteri, maent yn ddiflas ac yn ddyfrllyd.

Mae pannas gydag oren a chnau castan yn flasus a hefyd wedi eu rhostio gyda mêl a theim. Gweiniwch selsig gyda phannas, afal a rhosmari neu sej. Ychwanegwch syrup masarn i faip, coginiwch cêl gyda thomatos a chilli, pwmpen a cêl gyda paprika wedi'i fwgu ag oregano sych; mae moron a chennin wedi eu pobi gyda chili a sinsir ffres yn flasus hefyd ffa ffrenig gyda thomatos a seleri.

Defnyddiwch betys coch mewn salad gyda chaws glas neu gaws gafr, gydag eog wedi ei fygu neu hyd yn oed mewn brownis! Os oes gormodedd o domatos coch gennych maent yn hawdd i'w gwneud yn saws gyda basil, wnionsen goch a garlleg ar gyfer pasta - handi iawn yn y rhewgell.

Mae'r hydref yn cychwyn y tymor o'r 'bwyd cysur' ac un o fy ffefrynnau ydy crymbl ffrwythau. Rhowch dro ar wneud eich crymbl yn fwy blasus gan ddefnyddio blawd cyflawn new blawd gyda grawn ychwanegol ynddo, cnau a ceirch gan stiwio'r ffrwyth gyda siwgr a sbeis (coes cinnamon, cardamom a seren anise). Dwi hefyd yn hoff iawn o eirin neu ffigys wedi eu pobi gyda sinamon a mêl, mae'n flasus gydag iogwrt ac ar uwd. Ac wrth gwrs mae'n rhaid gwneud gin eirin tagu neu eirin duon yn barod ar gyfer y Nadolig!

Gan ei bod hefyd yn dymor y GBBO a'r Bore Coffi Mawr Macmillan mae'n esgus da i mi roi tro ar rysáit newydd ar gyfer cacen. Dyma fy addasiad i o rysáit yn rhifyn Mis Medi o'r cylchgrawn Good Food sy'n defnyddio gorbwmpenni (courgettes). Mae'n gacen ar gyfer ei rhannu! Bydd yn cadw'n ffres am tua 2-3 diwrnod yn yr oergell.

Cacen gorbwmpenni, lemwn a theim
Ar gyfer y gacen:

235g menyn heb halen (ar wres y stafell fel ei fod yn feddal)
235g siwgr man euraidd (golden caster)
4 wy mawr
270g blawd codi
1½ llwy de powdr codi
3 gorbwmpen (tua 400g)
2 llwy bwdin o ddail teim wedi'u torri'n fân
Croen 1½ lemwn wedi'i gratio'n fân

Ar gyfer y llenwad a'r addurn

2 lwy fwrdd siwgr mân gwyn + 100g
12 sbrigyn o teim
1 gwyn wy
Lemwn wedi ei dorri'n sleisys tenau (defnyddio'r rhai sydd wedi eu gratio)
*150-250g mascarpone
*150-250g menyn heb halen
*100-150g siwgr eisin
Croen ½ lemwn wedi'i gratio'n fân

Iro a leino 2 dun cacen spwng maint 20cm
Ffwrn ymlaen ar 160°C / nwy 4
Gratio'r pwmpenni yn fras a chroen y lemwn yn fân
Rhoi'r siwgr euraidd, menyn a chroen y lemwn mewn bowlen a defnyddio chwisg drydan i'w cymysgu'n dda.
Curo'r wyau ac yna eu hychwanegu fesul tipyn i'r cymysgedd a'u curo i mewn yn dda.
Cymysgu'r blawd gyda'r powdr codi a pinsiaid o halen cyn ei ychwanegu i'r cymysgedd bob yn dipyn - peidiwch gôr gymysgu! Yna cymysgu'r teim a'r pwmpenni i mewn.
Rhannu'r cymysgedd gydrhwng y ddau dun pobi
Coginio am tua 25-30 munud. Mewnsoddi sgiwer i'r cymysgedd i weld os yw'r gacen yn barod, dylai'r sgiwer ddod allan yn lân.
Yn ystod yr amser mae'r gacen yn coginio gellir paratoi'r addurn trwy doddi'r 100g siwgr mân mewn 100ml o ddŵr, wrth ferwi, ychwanegu'r sleisys lemwn a'u coginio am 15 munud yna ei rhoi ar femrwn pobi yn ofalus iddynt sychu. Yna chwipio'r gwyn wy yn ysgafn a throchi'r teim ynddo ac wedyn yn y siwgr a'u gadael i sychu ar femrwn pobi.
Oeri'r cacennau ar rac oeri a pharatoi'r llenwad trwy gymysgu'r mascarpone, menyn, siwgr eisin a'r croen lemwn gyda'i gilydd i wneud cymysgedd llyfn ag ysgafn.
Lledaenu'r llenwad dros un o'r cacennau cyn rhoi'r un arall ar ei ben, yna ddefnyddio'r teim a sleisys lemwn i'w addurno.

*Defnyddiwch y maint o lenwad sydd i'ch blas a hefyd y maint o siwgr eisin sydd ynddo. Os yw'r gacen yn edrych braidd yn sych gallwch frwsio ychydig o'r sudd sydd yn y sosban ar ôl coginio'r lemwn arni cyn ychwanegu'r llenwad.

Pryd fydd Y Gwyll yn ôl ar y sgrin?

Does dim angen i ddilynwyr Y Gwyll/ Hinterland aros yn hwy i wybod pryd bydd ei hoff gyfres ddrama yn ôl ar y sgrin. Y dyddiad i'w gofio yw nos Sul 30 Hydref am 9.00 ac S4C yw'r lle cyntaf ar draws y DU i'w weld. Bydd achosion newydd yn cael eu datrys a hen achosion yn dod i'r wyneb unwaith eto. I ychwanegu at y cynnwrf, mae S4C hefyd wedi rhyddhau clip o'r gyfres newydd am y tro cyntaf, gyda golwg ecsgliwsif o'r ddrama sydd i ddod.

Mae'r olygfa yn llawn tensiwn. Mewn ystafell holi llwm, mae DS Sian Owens (Hannah Daniel) yn gofyn cwestiynau anodd i'w cyn bennaeth DCI Tom Mathias (Richard Harrington) wrth geisio darganfod y gwir am bwy losgodd ei garafan yn ulw ar ddiwedd yr ail gyfres.

Mae DS Owens yn amau'n gryf bod Mathias yn cuddio rhywbeth. Ydi e'n ceisio gwarchod rhywun? Pam? Roedd hwn yn ymosodiad personol, sydd wedi dinistrio ei gartref a'i holl eiddo. Pa elyn fyddai eisiau ymosod ar y ditectif yn y fath fodd?

Bydd rhai o'r dirgelion sydd wedi codi chwilfrydedd y gwylwyr yn ystod y cyfresi blaenorol yn dod i'r lan yn y gyfres hon, a bydd rhai o'r darganfyddiadau yn siŵr o'ch synnu. Mae taith gyffrous yn aros ein gwylwyr, yn nhrydedd gyfres Y Gwyll Hinterland, yn nôl Gwawr Martha Lloyd, Comisiynydd Cynnwys Drama S4C.

Meddai Gwawr Martha Lloyd; "Roedd diweddglo'r gyfres ddiwethaf mor ddramatig ac mae'r gynulleidfa, fel minnau, yn awchu am ragor o straeon ac i weld beth sydd wedi digwydd i'r cymeriadau erbyn hyn a ble fyddan nhw'n mynd nesa'. Bydd y drydedd gyfres yn datgelu'r gwir am nifer o'r cymeriadau ac yn eu gwthio i'r eithaf. Bydd nifer o'r dirgelion tywyll sydd wedi bod yn llechu ers cyfres gyntaf Y Gwyll yn cael eu datrys a daw'r gwir i'r lan o'r diwedd. Ry' ni'n sicr o gael ein cyffroi, ein rhyfeddu a'n llorio sawl gwaith yn ystod y drydedd gyfres."

Er mwyn bod ymhlith y cyntaf i weld y cyfrinachau'n cael eu dadorchuddio, gwyliwch Y Gwyll/Hinterland ar S4C o nos Sul 30 Hydref. Peidiwch â'i fethu – ewch i s4c.cymru/atgoffa i dderbyn nodyn atgoffa ar eich dyfais.

Mae manylion holl raglenni S4C ar gyfer y tymor – chwaraeon, plant, diwylliant a digwyddiadau – ar gael ar s4c.cymru neu drwy ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

Bethlehem
Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Hydref 2016:

2 – Oedfa gymun dan arweiniad y Parchedig Dafydd Andrew Jones
9 – Oedfa dan ofal Sioned Wyn
16 - Oedfa dan ofal Rhys ab Owen
23 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
30 - Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans

Mis Tachwedd 2016:

6 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Ddr. John Tudno Williams
13 - Oedfa Ardal
20 – Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
27 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys

Tair wythnos ar ddeg hyd ddydd Nadolig. y tymor criced wedi dod i ben a thymor yr hydref wedi dechrau yn swyddogol; y cynadleddau gwleidyddol yn eu hanterth; a'r cymdeithasau a'r sefydliadau wedi ail-gydied yn eu gweithgareddau.

Fedrwn ni ddim bod wedi osgoi y Gemau Olympaidd a'r Paralympaidd yn yr union Rio hwnnw y gwelodd Syr T H Parry-Williams yn 1925 y ferch honno ar y cei, ac y bu i Hogiau'r Wyddfa roi cerddoriaeth gyferbyn a'r gerdd a'i morio hi byth ers hynny.

"…O'r cannoedd oedd yno, ni sylwn ar neb ond ar ferch ar y cei yn Rio…"

Petae wedi bod yno ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach (cwblhawyd yn 1931) mae'n siwr y byddai wedi sylwi yn ogystal ar y cerflun gorffenedig hwnnw o Grist ar ben mynydd Corcovado – "Crist y Gwaredwr / Crist y Prynwr / Crist yr Iachawdwr" - gewch chi ddewis.

Gweledigaeth y cynllunydd, Da Silva Costa, oedd "y byddai'r cerflun yn wynebu haul y bore, fel ei fod, ar doriad gwawr, y peth cyntaf i oresgyn y tywyllwch wedi'r nos, ac y byddai'n derbyn cyfarchiad seren y bore, a fyddai yn ei dro yn llewyrchu o'i amgylch hyd y machlud pryd y ffurfiai eurgylch o amgylch y pen a fyddai'n weddus o'r dyn-Duw".

Sawl tro yn ystod y gemau y clywsom y cystadleuwyr yn cyfeirio at rym a rhamant y campau yng nghysgod y cerflun yma – y Crist hefo'i freichiau agored, yn dweud "gallwch chi fod yn siwr y byddaf i gyda chwi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod."

Ychydig a feddyliwn y byddwn, ymhen rhai wythnosau, yn sefyll wrth draed cerflun arall o'r Crist, "Crist y Brenin (Cristo Rei)" y tro yma, a hynny ar wastatir uwchben yr Afon Tejo yn ninas braf Lisbon ym Mhortiwgal – ia, yr union wlad a drechodd Cymru yn rownd gyn-derfynol cystadleuaeth pel-droed Pencampwriaeth Ewrop eleni!

'Roedd y cerflun yma wedi ei ysbrydoli gan y "Cristo Redentor" yn Rio, yn dilyn ymweliad yno gan Gardinal Patriarchaidd Lisbon yn 1934. Gwaith y cerflunydd Francisco Franco de Sousa ydyw ac fe'i cwblhawyd yn 1969. Saif yn gofeb barhaol o ddiolch i Dduw am warchod y wlad rhag yr ymladd a fu ar draws Ewrop yn ystod yr ail Ryfel Byd. Mae'r breichiau yn ymestyn allan tua'r ddinas fel petae yn ei chofleidio.

Yr ail beth a ddaeth â boddhad a gwyleidd-dra i'n plith oedd ymweliad y Tad Deiniol, Offeiriad yr Eglwys Uniongred ym Mlaenau Ffestiniog, â chymdeithas Drws Agored yn ystod y dyddiau diwethaf yma. Daeth yn ei wisg ddu a'i farf llaes gwyn i rannu o'n dealltwriaeth o'r Eglwys Uniongred, yn y gyfres ar grefyddau'r byd, sy'n barhad o'r hyn a ddilynwyd gennym dan arweiniad ein cyn-weinidog, y Parchedig R Alun Evans, yn ystod y tymor diwethaf.

Cawsom ein cyfareddu ganddo wrth i'r gŵr o Fôn olrhain ei droedigaeth o fod yn Anghydffurfiwr (Wesla) i fod yn gynrychiolydd yr Eglwys Uniongred yng Nghymru. Agorodd y drws ar ystyr a bwriad yr eiconau sy'n gymaint rhan o'r traddodiad gan hefyd gyfeirio at y bobol rheini ar draws cyfandir Ewrop a fu'n gymaint dylanwad arno. Daeth â chig a gwaed i rai a allai'n hawdd fod wedi bod yn gymeriadau a lleoliadau yn nofelau diweddar William Owen Roberts, sef "Petrograd" a "Paris". A hefyd bu'n rhannu hanes y credinwyr yn Undeb Sofietaidd y KGB ac yn Almaen y Naziaid yn ystod cyfnod mwy diweddar.

Roedd ganddo hefyd le annwyl iawn i bobl llawr gwlad, gan gynnwys "Mrs Parry Greek" a'i theulu o Benygroes – teulu yr oeddwn ni ac adnabyddiaeth dda ohonynt.

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m..Cofiwch am wefan Bethlehem www.gwe-bethlehem.org

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

CROESAIR COL



Ar Draws

1. Dawnus (8)
5. Sŵn trwm (4)
9. Coginio mewn dŵr (5)
10. Byddi'n wwftio (5)
11. Parhau fel Dr Who! (10)
15. Adegau (6)
16. Niweidio (6)
18. Coed â gwacter yn y canol (10)
21. Lle i godi toll (5)
23. Traethawd (5)
24. Natur ddrwg (4)
25. Yn dal poen neu flinder (8)

I Lawr

1. Gwaharddiad (4)
2. Cerbyd mawr (4)
3. Arbenigrwydd (12)
4. Oerni (6)
6. Llawer (3)
7. Campweithiau mewn llên (7)
8. Un sy'n gwahaniaethu (11)
12. Talent (4)
13. Aderyn ysglyfaethus (8)
14. Traflyncu (4)
17. Rhoi bri (6)
19. Anafus (4)
20. Oerneth (4)
22. Peth i fwyta ag ef (3)

Atebion i: Croesair Col,
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil,
Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 19 Hydref 2016

Atebion Medi

A	D	L	A	M	U		G	E	LL	G	W	N
G		O		O		C		CH		W		E
O	F	N	A	D	W	Y		D	A	E	A	R
R				U		F		O		I		TH
E	S	G	O	R		E	FF	E	I	TH	I	O
D				D		I				L		L
	A	N	FF	Y	DD	L	O	N	D	E	B	
D		E				I		E				P
Y	M	R	W	Y	F	O		I	A	CH	A	U
FF		TH		S		R		F				R
R	E	I	A	T		N	E	I	S	I	A	D
Y		A		L		I		O		O		A
N	O	D	W	E	DD		A	N	U	D	O	N

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
22 Hydref 2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

'Nabod eich adar?
Noson yng nghwmni
Daniel Jenkins-Jones o'r RSPB
Nos Fercher, Hydref y 5ed
yn **y Ganolfan, Efail Isaf** am **8**
Dewch i gefnogi!
Ffoniwch am wybodaeth bellach
Manylion: 029 20890770

CYLCH CADWGAN

CLWB Y DWRLYN

Karen Owen
yn siarad ar y tesun 'Lein a bît yng nghalon y bardd'
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
8yh nos Iau
20 Hydref
Mynediad £3
Manylion: 029 20890040

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant
Delwyn Sion yn difyrru gyda "Sgwrs a Chân"
yn y Tabernacl, Efail Isaf
am 7.30 ar 30ain Medi
Croeso cynnes i bawb

Holi Dafydd Wigley

Dewch i noson o adloniant yng nghwmni Dafydd Wigley ar y 27ain o Hydref 7.30pm yng Nglwb y Bont, Pontypridd - mi fydd yn gyfle i'w holi am y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd, yr ymgyrch dros Gymru annibynnol, dyfodol y cymoedd neu unrhyw bwnc o'ch dewis. Dewch yn llu.

Gweithgareddau Cymraeg yng Ngartholwg

Mae sawl cwrs newydd gan gynnwys lwcs (Ukelele), loga a Choginio.

Hefyd , mae'r digwyddiadau canlynol:
Lawnsio Arddangosfa Aberfan – Hydref 12
Gwyl Llenyddiaeth Plant – Hydref 22
Only Men Aloud – Tachwedd 3
Dramau i Blant - 'Dilyna fi' a ' Dillad newydd yr Ymerawdwr'

Croesair Col Olaf

Ar dudalen 9 mae'r olaf o groeseiriau Colin Murphy, Meisgyn. Mae Colin wedi paratoi croeseiriau dros gyfnod o 14 mlynedd i Tafod Elái ac wedi mynd â ni i bob twll a chornel o'r Geiriadur Mawr a thu hwnt! Mae wrth ei fodd yn paratoi croeseiriau ac mae bob un wedi gosod sialens arbennig.

Yn ystod y cyfnod yma mae wedi llwyddo i gwblhau Gradd Allanol yn y Gymraeg yn Aberystwyth ac wedi bod trwy gyfnod o salwch.

Diolch yn fawr Colin am dy holl waith a dymuniadau gorau am y dyfodol i ti a'r teulu.

#Cymraeg2050

Ymgynghoriad Strategaeth y Gymraeg

Dychmyga'r flwyddyn 2050. Mae miliwn o siaradwyr Cymraeg ac mae'r iaith yn rhan naturiol o fywyd...

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y strategaeth ddrafft i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae'n cynnwys 6 maes datblygu strategol sef:

- Cynllunio a pholisi iaith
- Normaleiddio
- Addysg
- Pobl
- Cefnogi
- Hawliau

Maent yn awyddus i glywed eich barn ar eu cynigion ar gyfer gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg.

Dyddiad cau'r Ymgynghoriad:
31 Hydref 2016:

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau
trwy gwblhau Ffurflen Ar-lein

neu gallwch lawrlwytho'r Ffurflen Ymateb a'i ddanfon...

AR EBOST -
unediaithgymraegwelshlanguageunit@wales.gsi.gov.uk

TRWY'R POST -
Is-adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru,Parc Cathays
Caerdydd. CF10 3NQ.

Am fwy o wybodaeth, ac i weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-y-gymraeg

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Cafwyd dechreuad arbennig i'r tymor newydd yng nghwmni Branwen Cennard. Bydd y gangen yn cwrdd nesa nos Iau Hydref 13eg am 7.30 yn Festri Capel Sardis pan fyddwn yn dathlu diwrnod Shwmae, Su'mae?

Mae croeso mawr i aelodau newydd a dysgwyr - merched a dynion i ymuno mewn noson anffurfiol am glonc a choffi.

Gwestai mis Tachwedd yw Dr Rhodri Evans pan fydd yn trafod 'Cyfrifiaduron Harvard'- cyfraniad merched at seryddiaeth. Dewch i ymuno â ni nos Iau Tachwedd 10fed.

Clwb y Bont
Yn dilyn cyfarfod arbennig yn y Clwb ddechrau Medi fe ffurfiwyd pwyllgor newydd i symud y Clwb ymlaen at gyfnod newydd. Roedd pawb oedd yn bresennol y noson honno yn awyddus i gadw drysau'r Clwb ar agor ac i ddenu mwy i fynychu'r adeilad yn gyson.

Diolchwyd i'r hen bwyllgor am eu gwaith diflino yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
Y swyddogion newydd yw:
Cadeirydd- Geraint Day, Graigwen
Ysgrifenyddion – Helen Morgan a Dani Thomas, Graigwen.
Trysorydd- Clayton Jones, Ynysybwl
Aelodau'r pwyllgor newydd
Terry Chinn, Heledd Fychan, Peter Gowan, Hefin Karadog, Tina Morris, Jayne Rees, Rhuanedd Richards, Einir Siôn(yn cynrychioli'r Menter Iaith), Daniel Thomas, Jon Thomas a Tanya Thomas.

Mae croeso i aelodau eraill. Bydd y pwyllgor yn cwrdd bob pythefnos(ar hyn o bryd) gydag is-bwyllgorau yn trafod agweddau gwahanol e.e aelodaeth, marchnata, digwyddiadau, cyllid.

Mae'r Clwb yn edrych ymlaen at weld cymdeithasau ac unigolion yn llogi'r ystafell gefn ar gyfer amrywiol o ddigwyddiadau ac achlysuron.

Priodasau
Ym mis Awst priodwyd Gwenno Jones a Richard Griffiths, Aberpennar. (Llun tudalen 4). Mae Gwenno yn ferch i Delyth a Niwc, Cilfynydd. Cynhaliwyd y briodas yn West Farm Barn, ger Aberogwr. Morynion Gwenno oedd Seren Evans a Lowri Prosser- hen ffrindiau ysgol, Lowri Griffiths, chwaer Richard, Holly Spencer, ffrind o Fryste a Lisa Jones, cyfnither Gwenno. Ffrindiau Richard oedd ei weision priodas a'r gwas bach oedd Ashton Bowen. Aeth Richard a Gwenno ar eu mis mel i'r Maldives a Dubai. Maent wedi ymgartrefu yn Aberpennar. Pob dymuniad da i chi.

Ddiwedd Medi cynhaliwyd priodas Gwawr Loader a Gruffydd Pritchard yng Nghapel Sardis, Pontypridd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Pen-blwydd
Llongyfarchiadau i Jamie Ebbsworth sydd wedi dathlu pen blwydd nodedig yn ddiweddar.

Cydymdeimlo
Yn ddisymwth ym mis Medi bu farw tad Menna Lewis, Graigwen. Roedd Mr Lewis Lewis yn 91 oed ac yn byw yn Llanbedr Pont Steffan. Estynnwn ein cyd ymdeimlad a Menna a hefyd ei brawd Ian a'r teulu a'i chwaer Nia a'r teulu yng Nghaerdydd.

Clwb Llyfrau
Ar ôl cwrdd yn y Trattoria mis diweddaf fe benderfynwyd ar y cyfrolau i'w darllen dros y misoedd nesaf.

Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Iau, Hydref 20fed am 8.00 i sgwrsio am ail nofel Jessie Burton 'The Muse' a chyfrolau straeon byrion Roald Dahl i oedolion.(fe fydd rhai darllenwyr y Tafod yn cofio'r gyfres arbennig ar y teledu 'Tales of the Unexpected' yn seiliedig ar y straeon yma).

Y cyfrolau dan sylw ym mis Tachwedd yw llyfrau enillodd brif wobrau'r Eisteddfod eleni sef 'Ymbelydredd' gan Guto Dafydd a 'Cai' gan Eurig Salisbury. Dewch i ymuno â ni yng Nghlwb y Bont nos Iau Tachwedd 17eg am 8.00yh

Pwyllgor yr Urdd
Diolch i Gareth Blainey am gwis llwyddiannus arall yng Nghlwb y Bont.
Mae'r Pwyllgor Apêl yn cwrdd nos Fercher, Hydref 5ed am 5.00 yng Nghaffi Sainsbury's. Croeso i aelodau newydd.

Y digwyddiad nesa yw pryd o fwyd Indiaidd yn y Juboraj (oddi ar yr A470) nos Lun Hydref 3ydd am 7.00. £20 y pen am bryd 2 gwrs- cyfraniad sylweddol yn mynd at yr apêl.

Cysylltwch â Margaret Francis am fwy o wybodaeth - 07855234017

Newyddion da
Mae dau o drigolion y dref yn gwella ar ôl misoedd o salwch. Dymuniadau am wellhad buan i Dewi Hughes, Heol Merthyr a Siân Ebbsworth, Parc Prospect.

Croeso
Ar ôl aros tan ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol fe gyrhaeddodd Erwan Teifi, mab i Laura ac Aneirin Karadog, Pontyberem. Brawd bach i Sisial ac ŵyr cyntaf i Derec a Christina Stockley, Coed y Cwm a Llydaw. Llongyfarchiadau!

Swyddi newydd, Cartref newydd.
Mae Dylan Ebbsworth a'i gariad Lauren Slater wedi symud o ochrau Llundain i Warwick. Mae Lauren wedi ei phenodi i swydd gyda chwmni ceir Jaguar Landrover a Dylan yn dechre swydd fel archwiliwr gyda chwmni yswiriant yn Redditch. Pob hwyl i'r ddau ohonynt yn eu gyrfaoedd.

Colli Awdur

Trist oedd clywed am farwolaeth Gareth F. Williams, Y Beddau. Yn enedigol o Borthmadog dilynodd gyrfa fel athro cyn troi yn awdur llawn amser. Roedd yn adnabyddus am ysgrifennu nofelau i blant ac oedolion a chreu nifer o gyfresi drama teledu. Enillodd lawer o wobrau am ei waith yn cynnwys Llyfr y Flwyddyn yn 2015 am ei nofel Awst yn Anogia. Cydymdeimlwn â'i wraig Rachel a'r teulu.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ymhlith y llu o ddeddfau gwyddoniaeth gellid dadlau mai Deddf Cadwraeth Egni yw'r fwyaf un. Bydd llawer yn ei chofio yn y ffurf: Ni ellir creu na diddymu egni, dim ond newid ei ffurf. Hon yw'r ddeddf sy'n greiddiol i bob system o weithredu, beth bynnag yw'r cyd-destun, boed yn feddygol, yn beirianyddol, yn seryddol a phob…ol arall. Gyda llaw, Cymro oedd y cyntaf i wneud cyhoeddiad ffurfiol o'r ddeddf, sef, William Grove (1811 – 1896) o Abertawe er bod eraill, megis Carnot, Clausius a Nernst, yn fwy amlwg yng nghof ffisegwyr erbyn hyn. Yn 2017 disgwylir i Wasg Prifysgol Cymru gyhoeddi astudiaeth o gyfraniad Grove. Gwyliwch amdano; roedd Grove yn athrylith amlweddog.

Pam rydwi'n sôn am y ddeddf hanfodol hon? Yn syml oherwydd profiad personol diweddar o'r ddeddf ar waith ar ffurff cyfres wahanol o eiriau: Y mae pob system yn ei hunan yn tueddu at gyflwr o anhrefn; rhaid wrth fewnbwn o waith (egni) os am adfer a chadw trefn. Felly y bu yn fy rhandir a'm stydi. Parthed y stydi rwy wastad rhwng dau feddwl; ar un llaw mae'n amlwg yn well ar sawl ystyriaeth os gwaredaf bapurau o'r gorffennol pell, ond, ar y llaw arall, daw trysorau coll i'r golwg . eto. Un o'r colledigion hyn yw tudalen o'r cylchgrawn, Europhysics News, rhifyn Tachwedd 1999. Denwyd fy sylw at nodyn yn cario'r pennawd The Scientists' Oath. Yn fyr, mae'r awdur yn nodi bod gan feddygon eu Llw Hippocratig sy'n llywio arferion meddygon ac yn holi oni ddylai gwyddonwyr ddilyn yr esiampl. Mae'r awdur yn cynnig dwy ran i'r cyfryw lw: *yn gyntaf, Hyd y gwn i, ni fyddaf yn cynnal unrhyw ymchwil sy'n niweidiol i bobl; yn ail, Os, ymhen amser, y bydd ymchwil y bues yn cyfrannu ati yn cael ei defnyddio i niweidio pobl, byddaf yn gweithredu'n bwrpasol i wrthwynebu ei datblygiad.*

Hyd y gwn i does dim llw wedi'i chyhoeddi, ond mae'r ystyriaethau yn dal i haeddu sylw.

Pob clod i BBC Radio Cymru am (a) raglen Beti a'i Phobl (Medi 18fed) yn cynnwys sgwrs gyda'r Athro Huw Cathan Davies, arbenigwr disglair iawn ynghylch gwyddoniaeth hinsawdd a thywydd, (b) gyfres Labordy Deri a Bryn.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Ymddeoliad hir a hapus ...
... i Esme Griffiths! Ar ôl gwasanaeth disglair i blantos Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth - hynny am bymtheg mlynedd - dyma Esme yn achub ar y cyfle i ymddeol o'r 'stafell ddosbarth. Cyn Gwaelod bu Esme'n athrawes am gyfnod hir yn Ysgol Ifor Bach Senghennydd. Joia dy ryddid Esme a'r hawl i wneud yr hyn yr wyt ti yn ei ddymuno!

Canlyniadau disglair!
Llongyfarchiadau mawr i gymaint o bobol ifainc y pentre ar wneud mor dda yn eu harholiadau Safon Uwch yn yr haf! Yr holl waith - a gofid - wedi talu ar ei ganfed. Gawn ni ddymuno'n dda i'r canlynol wrth iddynt gychwyn ar bennod newydd a chyffrous yn eu bywydau:
Tom Burns fydd yn astudio Graffeg yn Salford
Tomos Angell - Busnes yn Lerpwl
Rhys Powell - Peirianneg Awyr Ofod yng Nghaerfaddon
Rhys Lynch - Bio-cemeg yng Nghaerfaddon
Gwilym Rees - Gwyddorau Naturiol yng Nghaerwysg
Gwilym Preest - Meddygaeth yn Birmingham
Dafydd Dodson - Peirianneg yn Abertawe
Matthew Stewart - Blwyddyn allan
Rhys Lewis (Groesfaen) - Gwleidyddiaeth - Manceinion
... a dim ond y bechgyn yw'r rheina!

Beth am y merched? Wel ...
Hanna Davies - Gwyddor Biofeddygol yn Southampton
Gwenllian Roberts - Ffarmacoleg Meddygol yng Nghaerdydd
Kate Pinnell - Y Gyfraith yng Nghaerwysg
Megan Evans - Busnes gyda Iaith Dramor (Ffrangeg) ym Manceinion
Celyn Impey - Addysg Gynradd yng Nghaerfyrddin
Rachel Innes - Celfyddyd Gain yng Nghaeredin
Emily Samuel - Ffisiotherapi yn Keele.

Am gasgliad o bobol ifainc dawnsus a diddorol! Mwynhewch a thrysorwch eich profiadau newydd! Falle y gwnewch anfon gair atom o'ch catrefi newydd dros dro! A diolch o galon i Hanna am y gwaith ymchwil! Diolch hefyd i'r holl athrawon fu'n hyfforddi'r disgyblion.

Pob lwc ...
... Martin Powell! Bydd Martin yn mynd amdani eto ac yn codi pres at Ymchwil Asthma Cymru wrth redeg yn ras hanner marathon Caerdydd ddechrau'r mis. Gwna dy ore was! Pawb lawr ffordd hyn yn dymuno pob llwyddiant i ti - a phawb arall o'r pentre fydd yn cymryd rhan! Llun - mis nesa - gyda'i fedal!

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Lluniau Tudalen 13

Lleisiau Bach
Mae 8 aelod o Flwyddyn 5 wedi eu dewis i gymeryd rhan ym mhrosiect 'Lleisiau Bach' ar y cyd â Phrifysgol Abertawe. Mi fydd y disgyblion yn edrych ar 'Gonfensiwn Hawliau Plant' ac yn gweithio i ddatblygu llais y disgybl ymhellach yn yr ysgol. Rydym yn edrych mlaen i weld eu prosiect ar waith yn fuan.

Y Faner Werdd
Llongyfarchiadau mawr i'r Cyngor Eco ar ennill Y Faner Werdd i'r ysgol. Maent wedi bod yn hynod o brysur yn sicrhau fod pawb yn dilyn ein Eco Gôd. Diolch yn fawr iawn iddynt ac i Mr Hughes am eu holl waith caled.

Gŵyl Hanes Cymru i Blant
Cafodd disgyblion Bl 5 a 6 gyfle i flasu bywyd y clêr fel rhan o arlwy Gŵyl Hanes Cymru i Blant. Daeth Anni Llŷn, sef Bardd Plant Cymru, i Gastell Coity i ddiddanu'r plant ac i'w haddysgu am fywyd y beirdd teithiol. Profiad arbennig iawn mewn lleoliad hyfryd. Daeth y glaw i darfu ar ddiwedd y sioe - ond mae'n bosib barddoni ar fws! Dychwelodd y plant i'r ysgol yn awyddus i ddechrau barddoni a llunio eu cwpledi eu hunain!

Noson Cyfarch Gwynfor Dafydd
Pleser pur oedd bod yn bresennol yn Noson Gyfarch Gwynfor Dafydd yn Ysgol Llanhari yn ddiweddar. Roedd hi yn hyfryd gweld Harriet John, Arianne Price a Liam Greening - 3 arall o gyn ddisgyblion yr ysgol, a ffrindiau i Gwynfor, yn darllen cerddi cyfarch iddo. Mae pawb yn YGGTonyrefail mor falch o'i lwyddiant ysgubol.

Merched y Wawr - Cangen y Garth

Diolch o galon i Yvonne 'Tywydd' Evans am ddod atom ar ein 'noson agoriadol' wythnos dwetha! Fe ddaeth fel chwa o awyr iach - yn gynnes, yn hynod ddifyr ac yn annwyl! Cawsom ei stori hyd yma - a dangosodd y gyfatebiaeth rhwng cyfnodau o dywydd eithafol, anarferol a phenodau yn ei bywyd gwaith hithau. Mwya diddorol! Cawsom 'chydig eglurhad ar anwadalwch y system dywydd ynghŷd a'r datblygiadau sy'n peri ei bod hi bellach yn bosib darogan y tywydd hyd at gyfnod o bedwar niwrnod! Os nad bob amser yn gywir - beiwch y ffaith ein bod yn byw ar ynys! Neu'r '*jet stream*' bondigrybwyll! Diolch Yvonne - a diolch am y *mensch* hyfryd ar 'Pnawn da' y diwrnod canlynol!

'Yvonne - un llon a llawen,
Un gynnes, barod ei gwên'.

Mis nesa - nos Fercher, Hydref y 5ed dewch i fwynhau cwmni Daniel Jenkins-Jones o'r RSPB - 8 yr hwyr yn y Ganolfan, Efail Isaf. Croeso i bawb!

Ysgol Evan James

Cylch Meithrin Newydd!
Wrth i flwyddyn newydd sbon cychwyn i ddisgyblion Ysgol Evan James, daeth newid mawr i'n hysgol ni wrth i Gylch Meithrin Evan James agor ei drysau am y tro cyntaf. Rydym yn croesawu plant 3 oed i sesiynau pob prynhawn o dan ofal Miss Cullimore a Miss Lane. Rydym hefyd yn croesawu plant bach newydd i ddosbarth meithrin yr ysgol, dosbarth Jac y Jwc - a phob un wedi setlo'n hyfryd!

Rwb-a-dwb!
Cafodd dosbarthiadau blynyddoedd 1 a 2 sef; Cerys Mathews, Tom Jones ac Elin Fflur modd i fyw wrth gwrdd gyda Beti Bwt a chymryd rhan mewn gweithdy diwrnod golch gyda hi yn Amgueddfa Sain Ffagan. Mae pawb wedi bod yn ymarfer eu sgiliau sgrwbio yn eu ardaloedd gwlyb ers iddynt ddychwelyd.

Pori trwy lyfrau
Llongyfarchiadau i'r plant gymerodd rhan yn hêr darllen llyfrgell Pontypridd dros yr haf. Garwen Mantoun o ddosbarth Culwch ac Olwen enillodd yr helfa drysor Roald Dahl, ei gwobr oedd jigso Y Cawr Mawr Mwyn neu'r CMM fel y adnabyddir, a hefyd bag Roald Dahl - am gamp Garwen!

Teithiau i bob man
Am ddechreuad i'r tymor newydd i blant yr Adran Iau isaf sydd hefyd wedi bod ar ymweliad ysgol. Aeth ddosbarthiadau Blodeuwedd, Culwch ac Olwen a Branwen i Techniquest, Bae Caerdydd i ddysgu am y corff fel rhan o'u thema 'Esgyrn, gwaed a darnau gwaedlyd'!

Llwyddiant wedi'r Ewros!
Llongyfarchiadau anferthol i Lauren Payne, dosbarth Blodeuwedd, am gael ei dewis fel aelod o dîm pêl-droed De Cymru...lwc owt Mr Bale...

Campau Pwyll a Rhianon
Llongyfarchiadau Summer Williams am ennill ei gwregys karate coch a gwyn dros yr haf, hefyd i Millie Shapland am ennill gwobr yng Nghystadleuaeth Nofio 'Club Champions'. Daliwch ati ferched!

Ffarwel
Yn annisgwyl buom yn ffarwelio gydag aelod o staff wrth i'r flwyddyn addysgol newydd gychwyn. Mi roedd yn golled mawr arnom fel ysgol wrth glywed am ymadawiad Miss Emily Frowen, mae hi wedi bod yn gweithio fel cynorthwydd addysgol a lles - ynghyd â sawl swydd arall; graddwr, pobydd, rhyfelwr Eco, technegydd car...ers sawl mlynedd bellach! Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr. Pob lwc a phob hwyl iti Emily yn dy swydd newydd yn Ysgol Uwchradd Bryn Celynog a diolch o galon am bob dim.

Ysgol Castellau

Dathlu Pen-blwydd Roahl Dahl
Cafwyd wythnos yn llawn hwyl yn ddiweddar i ddathlu 100 mlynedd ers genedigaeth Roald Dahl, y storïwr plant gorau yn y byd yn ôl rhai. Dewisodd bob dosbarth llyfr gwahanol a bûm yn gwneud sawl gweithgaredd gogonigedigog. Coginiodd rai siocled 'scrumdiddilyumptious' roedd rhai yn creu moddion mawreddog a chafodd eraill syrpreisys syfrdanferthol. Ddydd Gwener gwisgodd y plant fel cymeriad o un o'i lyfrau a rhaid dweud roeddent yn 'whoopsy-splunkers.'

Dechrau blwyddyn newydd
Braf oedd croesawu 38 o blant Meithrin newydd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Bellach mae pob un wedi setlo'n braf fel petai nhw wedi bod gyda ni erioed!

Croesawn Miss Cari Davies yn athrawes i Flwyddyn 5 a Miss Alex Davies yn gymhorthydd i'r Feithrin yn dilyn ei hantur yn gweithio yn Efrog Newydd.

Taith Blwyddyn 1 a 2 i Sain Ffagan

Teithiodd Blwyddyn 1 a 2 nôl mewn amser i weld sut oedd amodau byw yn y gorffennol. Edrychon ni ar hen dai a'u cymharu gyda thai heddiw. Cwrddon ni â Beti Bwt a dangosodd hi sut roedd golchi dillad yn gymaint o waith can mlynedd yn ôl! Diolch yn fawr i'r rhieni a fu'n helpu ar y daith.

Faciwîs Blwyddyn 5 a 6
Diwrnod trist dros ben oedd dydd Mawrth diwethaf pan orfodwyd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i ffarwelio â'u teuluoedd a theithio fel faciwîs i Gaerdydd ar y trên. Awyrgylch cyffrous a llon oedd ar blatfform gorsaf Pontyclun o ystyried yr amgylchiadau. Y daith gyntaf ar drên oedd hi i rai ac er nad oedd lle i bawb eistedd, mwynheuwyd y profiad mas draw. Daeth cyfnod yr Ail Ryfel

Ysgol Llantrisant

Croeso nôl
Croeso nôl i'r holl staff a disgyblion, ac yn enwedig i'r plant bach newydd sydd wedi ymuno â ni am y tro cyntaf. Croeso hefyd i Miss Hill-Tout sy'n dysgu dosbarth Miss Jenkins ar hyn o bryd. Mae pawb yn yr ysgol yn anfon eu dymuniadau gorau at Miss Jenkins ac yn gobeithio y bydd hi nôl gyda ni'n fuan.

Clwb Ffotograffiaeth
Mae clwb amser cinio newydd wedi dechrau yn yr ysgol y tymor hwn, sef Clwb Ffotograffiaeth. Mae nifer o'r disgyblion wrth eu boddau'n tynnu lluniau o gwmpas yr ysgol ac yn edrych ymlaen i gystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd eleni!

Diwrnod Roald Dahl
Ar Fedi'r 13eg mi fuon ni'n dathlu canmlwyddiant ers geni'r awdur Roald Dahl. Fe ddaeth y disgyblion a nifer o aelodau staff i'r ysgol wedi'u gwisgo fel cymeriadau allan o lyfrau Roald Dahl. Yn ystod y dydd, mi fuon ni'n cyflawni pob math o weithgareddau'n ymwneud â gwaith yr awdur ac am ddau o'r gloch y prynhawn, fe gafodd disgyblion CA2 gyfle i weld rhaglen fyw ar y wê, oedd yn ddathliad o fywyd a gwaith Roald Dahl. Roedd pawb wrth eu boddau!

Dyma luniau o'r plant wedi'u gwisgo fel cymeriadau Roald Dahl

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Tudalen 12)

Criw 'lleisiau bach'

Byd yn fyw wrth ymweld â'r llochesi cyrch awyr yn waliau'r Castell a chlywed am fywyd beunyddiol y cyfnod mewn gweithdy bywiog.

Barddoni ar y bws

Y Cyngor Eco

YSGOL LLANHARI

Canlyniadau TGAU ysgubol gan ddisgyblion Ysgol Llanhari

Mae'n rhaid dathlu eto yn Llanhari! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU rhagorol eleni ac unwaith eto eleni, penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff yw'r canlyniadau TGAU. Mae'r canlyniadau rhagorol yma yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gyda 100% o'r garfan yn llwyddo i ennill 5 gradd A*- C mewn pynciau TGAU neu gymhwysterau cyfwerth unwaith eto eleni. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 80% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 gradd A*-C oedd yn cynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gyda 21% o'r garfan wedi llwyddo i ennill pum neu fwy o raddau A*/A. Llwyddodd saith disgybl i ennill graddau A*-A mewn o leiaf deuddeg o bynciau ac uchafbwynt arall yw'r ffaith bod 96% o'r disgyblion wedi ennill graddau A*-C yn y Gymraeg neu Saesneg. Fel ysgol, ymfalchiwn mewn blwyddyn arall o ganlyniadau ardderchog lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu gyrraedd eu nodau personol gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau. Yn groes i'r duedd genedlaethol, bechgyn oedd yn arwain y ffordd yn Llanhari eleni gyda'r bechgyn yn perfformio yn uwch na'r merched yn nifer o'r dangosyddion. Dathlwn fel staff a rhieni bod y disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn datblygu ymhellach fel aelodau o'n chweched dosbarth ffynniannus. Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!

Dathlu Canlyniadau ardderchog Safon Uwch yn Ysgol Llanhari

Braf iawn oedd tystio i firi dathlu canlyniadau ardderchog 2016 ymhlith disgyblion y chweched dosbarth, staff a rhieni eleni, wrth iddynt lwyddo unwaith eto i wella ar ganlyniadau Safon Uwch y blynyddoedd blaenorol. Llwyddodd 100% o'r disgyblion mewn dau bwnc neu fwy. Roedd 25% o'r holl raddau a enillwyd gan y disgyblion yn raddau A*-A ac rydym yn hynod o falch bod 72% o'r graddau a enillwyd yn A*-C. Dathlwn lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Mae'r disgyblion wedi rhagori wrth ddilyn cyrsiau traddodiadol academaidd yn ogystal â phynciau galwedigaethol yn y chweched. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc a fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

Staff a disgyblion newydd

Estynnwn groeso mawr i dri aelod newydd o staff addysgu sef Mr Ieuan Williams (Ffiseg a Gwyddonaieth), Mr Dafydd Thomas (Daearyddiaeth) a Mr John Rivers yn yr adran gynradd. Bydd Mr Rivers yn addysgu plant blwyddyn 3 a 4 yn nosbarth Cnocell y Coed. Rydyn ni'n siŵr y bydd y tri ohonynt yn hapus iawn yn Ysgol Llanhari! Croeso mawr iddyn nhw ac i Mr Alan Davies sy'n cyflenwi yn yr adran Wyddoniaeth am y tymor. Croeso hefyd i ddisgyblion newydd dosbarth Dewi Draenog ac i flwyddyn 7. Mae pob un wedi ymgartrefu'n dda yn eu dosbarthiadau newydd .

Croeso!

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Hobbs a'i gŵr ar enedigaeth eu merch, Mali. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mrs Greenly a'i gŵr ar enedigaeth eu mab, Elis.

Clwb chwaraeon

Mae'r clwb chwaraeon bellach wedi dechrau ar gyfer plant o flynyddoedd 1, 2 a 3. Mae disgyblion o flwyddyn 3 a 4 wrthi yn ymarfer gwahanol sgiliau. Gallwn weld rhai o sêr y dyfodol yn ein plith! Tra bod y plant hŷn yn eu clwb nhw, mae disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn dysgu sgiliau hoci o dan ofal Miss Williams a Miss Harris. Maent yn dysgu sut i ddefnyddio'r ffyn yn gywir ac yn ddiogel a gyda rheolaeth gadarn! Da iawn bawb am gymryd rhan!

Milltir y dydd

Ers dechrau'r tymor, mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn dysgu am iechyd a ffitrwydd drwy redeg milltir y dydd! Maent wedi gwella ar yr amser maent yn cymryd i gwblhau'r filltir o fewn pythefnos o'i wneud! Braf yw gweld pob un plentyn yn cymryd rhan yn y dasg ac yn trio eu gorau glas! Rydym ni yn falch iawn ohonoch chi i gyd a'r staff sydd yn rhedeg gyda chi!

Llwyddiant Pêl-rwyd

Mae nifer o ferched wedi llwyddo ennill eu lle yng ngharfanau sirol pêl-rwyd ar ddechrau'r tymor ac mae Cerys Reynolds o flwyddyn 11 i'w llongyfarch yn arbennig am gael ei dewis i Garfan Talent Cymru o dan 17oed.

Gwobr Presenoldeb

7H enillodd wobr y tymor diwethaf am bresenoldeb ac i ddathlu eu llwyddiant aethant i Quasar yn Ynys y Barri. Wedi mwynhau chwarae yn y ganolfan laser braf oedd cael cinio ar y traeth! Mae presenoldeb disgyblion yn Ysgol Llanhari yn rhagorol ac am yr ail flwyddyn yn olynol, Llanhari oedd â'r presenoldeb gorau yn Rhondda Cynon Taf.

Noson i Ddathlu Llwyddiant Gwynfor

Hyfryd oedd croesawu pawb i Neuadd yr ysgol ar y 13eg o Fedi i ddathlu camp Gwynfor Dafydd yn ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint. Yn dilyn anerchiad ysbrydoledig gan y Prifardd Mererid Hopwood, talwyd teyrnged i Gwynfor gan ei gyn athrawon yn yr adran Gymraeg yn Llanhari a Ms Nia Downes o Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Hyfryd oedd clywed ei ffrindiau yn darllen cerddi cyfarch iddo gan amrywiol feirdd nodedig i ddathlu'r achlysur. Diolch i Miss Catrin Rowlands am drefnu'r noson ac i bawb a fynychodd am eu cefnogaeth.

Gwynfor yn ei gadair

Ffrindiau Gwynfor yn darllen cerddi cyfarch

Miss Catrin Rowlands

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Blwyddyn 13 yn camu ymlaen â gwên!
Hoffai Ysgol Gyfun Garth Olwg longyfarch ein hymgeiswyr Safon Uwch a diolch i rieni a staff am y gefnogaeth, gwaith caled ac ymroddiad wrth gynorthwyo'r myfyrwyr i gyrraedd canlyniadau ardderchog. Roedd 92% o'r disgyblion a gofrestrwyd wedi ennill o leiaf 2 gradd A* - C neu gyfatebol ac roedd 29% o'r holl raddau a enillwyd mewn cyrsiau Lefel 3 gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig yn "A*" neu "A". Ein ffigwr A*-C oedd 70%. Rydym yn falch am ein cyfradd llwyddo yn y Fagloriaeth Gymreig gyda 94% o'r myfyrwyr gofrestrwyd yn ennill y cymhwyster. Ymysg ein cyflawnwyr uchel, hoffwn gymeradwyo Gruffydd Bowen-Jones, Carys Rees, Dafydd Roberts, Eleri Roberts a Louie Sellwood a enillodd 2 neu fwy o raddau "A*" neu "A" yn ogystal â Diploma Uwch ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Serch hynny, rydym yn hynod falch o gyraeddiadau pob un o'n myfyrwyr. Ymhyfrydwn fod bron pob ymgeisydd ar gyfer Prifysgol wedi sicrhau lle dewisol a'u bod yn nawr yn paratoi i gymryd y cam nesaf yn eu gyrfaoedd. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt a'u llongyfarch ar eu hymdrechion.

Blwyddyn 12 – dechrau da i gyrsiau Safon Uwch
Roedd bron hanner yr holl raddau sgoriwyd gan fyfyrwyr Uwch Gyfrannol o safon A-C. Ymysg ein cyflawnwyr uchel, mae Iwan Cavil, Gruffydd Lloyd, Robbie Mears, Jac Smith, Tom Swayne a Daniel Thomas yn haeddu sylw arbennig gan i bob un ohonynt gyrraedd o leiaf 2 radd A yn eu pynciau uwch gyfrannol neu gyfatebol.

Canlyniadau TGAU gorau erioed - Blwyddyn 11 yn cynnal safonau uchel!
Rydym yn estyn llongyfarchiadau arbennig i'n hymgeiswyr TGAU a BTEC Lefel 2 ar eu canlyniadau a diolch i rieni a staff am eu cymorth wrth gynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd canlyniadau ardderchog. Llwyddodd 96% o'n ymgeiswyr Blwyddyn 11 i ennill y Trothwy Lefel 2 (5+ A* - C neu gyfatebol) a 66% i ennill Trothwy Lefel 2+ (5+ A* - C neu gyfatebol gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg)- y canlyniadau gorau yn hanes yr ysgol erioed. Llwyddodd 90 o ymgeiswyr i ennill Diploma Canolradd Bagloriaeth Gymreig (yn gyfatebol i 3 radd TGAU o ran sgôr pwyntiau). Ymysg ein cyflawnwyr uchel, hoffwn gymeradwyo Carys Bowen, Caitlin Brown, Elena Edwards, Niamh Jenkins, James Knott, Daniel Parry, Awen Rhys, Joe Thomas, Nyasha Thomas, Lucas Watts, Tomos West ac Ethan Williams ag enillodd 10 neu fwy o raddau "A*" neu "A" yn ogystal â'u Diploma Canolradd Bagloriaeth Gymreig. Serch hynny, rydym yn hynod falch o gyflawniadau pob un o'n disgyblion. Rydym yn dymuno'n dda i'r myfyrwyr wrth iddynt barhau gyda'u hastudiaethau neu ddilyn eu dewis o lwybr gyrfa yn ystod y flwyddyn i ddod. Ond ni ddaw llwyddiant heb waith caled ac ymrwymiad! Rydym yn llongyfarch ac yn diolch i'n staff ymroddedig am eu gwaith caled a diflino drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd canlyniadau mor arbennig! Diolch yn fawr - da iawn bawb

Llwyddiannau Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i Gwenno Iolo Davies ar gael ei dewis ar gyfer carfan pêl-rwyd dan 17 Cymru. Yn ogystal â hyn, mae Gwenno, Ela Jones Iles, Grace Postlethwaite a Shauna Wincop wedi cael eu dewis ar gyfer carfan pêl-rwyd dan 16 Taf Elai.
Llongyfarchiadau hefyd i Freya Williams, Nia Osborne a Mali Iolo Davies o flwyddyn 9 a Lara Watts ac Olivia Leyshon o flwyddyn 8 sydd wedi cael eu dewis i chwarae pêl-rwyd i garfan Taf Elái.

Llangrannog
Cyn i fi ddechrau hoffwn i ddiolch i'r athrawon oedd wedi dod gyda ni ar y daith anhygoel ac i'r swyddogion hyfryd hefyd. Roeddwn i'n teimlo'n nerfus ac yn gyffrous wrth fynd i Langrannog ond ar ôl i mi gyrraedd dim ond cyffro roeddwn i'n teimlo. Mae gen i lawer o atgofion ardderchog o Langrannog. Un o fy hoff weithgaredd oedd sgïo ac es i i dop y llethr sgïo. Mwynheais i'r cwrs antur hefyd ond roeddwn i'n rhewi ar ei ôl. Dydw i methu anghofio'r ceffylau. Aethon ni ar geffyl drwg o'r enw Pebbles. Doedd Pebbles ddim yn gwrando o gwbl. Un peth byddaf byth yn anghofio yw'r wedji o'r trampolîn! Rydw i'n teimlo'n agosach at yr athrawon, y swyddogion a'r disgyblion nawr ar ôl Llangrannog. Gwnes i ffrindiau newydd hyfryd. Pan adawon ni Langrannog roeddwn i'n teimlo'n drist i adael ond yn hapus i weld fy nheulu. Rydw i nawr yn hapus i siarad gyda mwy o blant a hefyd mae gen i lawer o atgofion byddaf yn cofio am weddill fy mywyd.

Gan Poppy Vandstone bl.7.



Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Trip i Sain Ffagan
Cafodd plant Blwyddyn 1 a 2 ddiwrnod i'r brenin yn Sain Ffagan yn ddiweddar. Mwynheuon nhw weithdy 'Beti Bwt' gan ddysgu sut oedd golchi dillad yn yr hen ddyddiau. Cawsant gyfle hefyd i edrych ar yr hen dai, a chael blas ar fywyd ysgol amser maith yn ôl.

Meithrin
Croeso mawr i blant y Feithrin sydd wedi ymgartrefu yn arbennig o dda yn yr ysgol.

Jeans for Genes
Ar Ddydd Gwener 23ain, gwisgodd y plant ag aelodau'r staff jins i'r ysgol er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen 'Jeans for Genes'. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael. Codwyd £308!

Taith yr Adran Gelf i Gaerdydd
Aethom ni fel blwyddyn 11 ar daith i Gaerdydd ar gyfer rhan o waith cwrs TGAu Celf. Daeth disgyblion o flwyddyn 10 hefyd sydd newydd ddechrau ar eu cwrs TGAU Ffotograffiaeth. Mi oedd yn ddiwrnod braf iawn, gyda'r haul yn gwenu ar Fae Caerdydd. Cawsom sawl cyfle i arlunio a chymryd ffotos ein hun ar gyfer ein gwaith ond mi oedd digon o amser i gymryd sawl 'selfie' hefyd! Roedd e'n ddiddorol iawn gorfod edrych ar bethau ar wahanol onglau, roedd Mrs Jones a Ms Rees yn gofyn i ni edrych i fyny ac i lawr cyn cymryd ffotos i gael gwell cyfansoddiad i'r lluniau. Mi oedd yn brofiad hyfryd o fwynhau gyda'ch ffrindiau wrth gwblhau gwaith ar yr un pryd. #carucelf.

Ellis Cope bl.11

Maes newydd 3G i Ponty

Roedd dydd Sadwrn 24ain o Fedi yn ddiwrnod o bwys i Glwb Rygbi Pontypridd, yn ddiwrnod o ddathlu, ond yn y pen draw hefyd yn ddiwrnod o siom.

Roedd Ponty yn chwarae ei gêm gartref gyntaf o'r tymor newydd, a hynny yn erbyn eu cymdogion o ben uchaf Cwm Taf, Merthyr - y newydd ddyfodiaid i'r Uwch Adran oedd wedi casglu ynghyd garfan gref iawn ar wariant y miliwnydd Sir Stan Thomas.

Yn fwy penodol, dyma gêm gyntaf Pontypridd ar y maes 3G newydd sbon oedd wedi ei osod ar Heol Sardis.

Bu'r cynllunio ar gyfer yr achlysur yn mynd ymlaen am flynyddoedd, gyda phartneriaid dylanwadol fel Coleg y Cymoedd, Prifysgol De Cymry, Chwaraeon Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r fenter.

Bu'r gwaith o osod haenau'r maes newydd yn mynd ymlaen drwy'r haf, dan ofal y contractwyr South Wales Sports Ground. Wedi archwiliad manwl gan yr IRB (Bwrdd Rygbi Rhyngwladol) cafodd y cae synthetig ei basio yn addas i chwarae, gan agor pennod newydd yn hanes Clwb Pontypridd, gyda'r maes at wasanaeth y gymuned leol.

Os oedd disgwyl i'r clwb cartref ddathlu drwy ennill ei gêm gyntaf ar y cae 3G, doedd Merthyr heb ddarllen y sgript! Wedi eu hyfforddi gan gyn arwr Pontypridd Dale McIntosh, a gyda nifer o gyn chwaraewyr Ponty yn eu rhengoedd, roedd Merthyr yn barod i osod her sylweddol, ac ar ôl brwydr gorfforol ddigyfaddawd, yr ymwelwyr oedd yn fuddugol o 21pt i 39.

Dyma oedd colled gyntaf Pontypridd o'r tymor newydd ar ôl sicrhau dwy fuddugoliaeth oddi cartref yn erbyn Bedwas a Llanelli.

Er y siom o golli gêm mor bwysig, roedd eto gyfle i ddathlu agoriad y maes newydd. Gall clybiau a chymdeithasau lleol yn awr wneud defnydd o gyfleusterau ardderchog Heol Sardis, ddydd a nos, bob diwrnod o'r wythnos.

Am fwy o fanylion am y maes newydd, a holl hynt a helynt Clwb Rygbi Pontypridd, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.